# Rheoli cyllidebau yn y diwydiannau creadigol

## Trosolwg

Mae’r Safon hon yn ymwneud â monitro’r gyllideb yn erbyn cynllun. Mae’n ymdrin ag asesu goblygiadau unrhyw ad-drefnu neu ail-ddosbarthu’r gyllideb a gofalu caiff y bobl berthnasol eu hysbysu o’r newidiadau. Mae’n bosib y bydd y gyllidebau yn rhai mewnol neu allanol i’r mudiad.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. monitro a rheoli cyllidebau er mwyn gofalu caiff adnoddau eu defnyddio yn unol â'r cynlluniau wedi'u cytuno o ran y gyllideb
2. gofalu bod manylion llawn gweinyddu, rheoli a gwario'r gyllideb ar gael i'r bobl briodol
3. adnabod a chofnodi problemau ac amgylchiadau dichonol gall effeithio ar gynlluniau'r gyllideb
4. adnabod ac ystyried adnoddau ychwanegol gall fod yn ofynnol o bosib a'u goblygiadau o ran y gyllidebau
5. adnabod achosion unrhyw anghydfodau sylweddol rhwng beth gafodd ei gyllidebu a'r gwir sefyllfa gan ofalu eich bod yn mynd ati'n brydlon i ddatrys y sefyllfa i
6. cynnig adolygiadau i'r gyllideb, os yn briodol, i ymateb i unrhyw anghydfodau a/neu ddatblygiadau sylweddol neu annisgwyl
7. gofalu bod y bobl berthnasol yn cytuno gyda newidiadau i gyfrannau arfaethedig cyllidebau
8. defnyddio gwybodaeth o'r gweithrediadau monitro a rheoli cyllidebau er mwyn cynorthwyo gyda pharatoi cyllidebau yn y dyfodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. amcanion creadigol y gwaith a sut maen nhw'n effeithio ar amcanion busnes
2. y gyllideb wedi'i gytuno, sut gaiff ei neilltuo er mwyn talu am y gwahanol weithgareddau a gofynion adnoddau. Hefyd faint yn union gall ei newid heb gymeradwyaeth
3. y berthynas rhwng y gyllideb a'r amserlen
4. sut i ddefnyddio cyllideb i fonitro a rheoli perfformiad yn weithredol
5. sut i gynnig cyfarwyddiadau a graddfeydd amser eglur pan fo gofyn i eraill gyflawni tasgau yn berthnasol i reoli cyllidebau
6. y prif resymau dros anghydfodau a sut i'w hadnabod
7. y gwahanol fathau o weithrediadau cywiro gallwch eu cyflawni er mwyn mynd i'r afael ag anghydfodau wedi'u hadnabod
8. sut gall ddatblygiadau annisgwyl effeithio ar gyllideb a sut i fynd i'r afael gyda nhw
9. pwy i hysbysu ynghylch amgylchiadau gall effeithio ar gyllidebau
10. sut i drafod, cytuno a chofnodi newidiadau i gyllidebau
11. pwy sy'n gyfrifol am gytuno ar adolygiadau i gyllidebau
12. pwy sydd angen ichi eu hysbysu am berfformiad yn ymwneud â'r gyllideb a newidiadau i'r gyllideb
13. pwysigrwydd defnyddio cyflwyno'r gyllideb i adnabod gwybodaeth a gwersi ar gyfer paratoi cyllidebau yn y dyfodol

Rheoli cyllidebau yn y diwydiannau creadigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSGW2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Gweithwyr Proffesiynol Animeiddio, Rheolwyr Cynhyrchu, Cydlynydd Cynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Cyfryngau Creadigol |
| **Geiriau Allweddol** | Cyllidebau, Monitro, Rheoli |